THEATR CYMRU

UN NOS OLA LEUAD

Addasiad Ilwyfan
o waith
Caradog Prichard

RHAGLEN - 15c

GYDA CHYMORTH CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU A CHYDWEITHREDIAD CYMDEITHAS THEATR CYMRU.

UN NOS OLA LEUAD

Addasiad llwyfan o waith Caradog Prichard
Lluniwyd gan John Ogwen

Bu llawer o alw o sawl cyfeiriad ar y Cwmni i ymweld â neuaddau lleol: felly dyma drefnu taith UN NOS OLA LEUAD yn arbennig ar gyfer canolfannau llai a stiwdio gan gynnwys hefyd ambell theatr. Pum wythnos o daith yn unig ydyw ac ni ellir mewn cyn lleiad o amser ymweld â phob tref a phentref drwy Gymru. Ceisiwyd, felly, ddewis canolfannau addas o fewn cyrraedd hwylus.

Perfformir UN NOS OLA LEUAD yn y canolfannau canlynol:

Theatr Seilo, Caernarfon; Neuadd y Dref, Llangefni; Theatr Tywysog Cymru, Bae Colwyn; Ysgol Gyfun Rhondda Uchaf, Treorci; Neuadd Goffa Rhiwbeina, Caerdydd; Ysgol Gyfun Ystalyfera; Neuadd Cross Hands; Ysgol Ramadeg Hen Dŷ Gwyn ar Dâf; Theatr Ardudwy, Harlech; Ysgol Uwchradd Botwnnog; Theatr Gwynedd, Bangor; Theatr Fach y Rhyl; Theatr Twm o'r Nant, Dinbych; Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug (Stiwdio); Ysgol y Berwyn, Y Bala; Ysgol Uwchradd Llanfyllin; Canolfan Glantwymyn; Neuadd Rhydypennau ger Aberystwyth; Theatr Felinfach; Ysgol y Preseli, Crymych.

THEATR CYMRU

Cadeirydd: Yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos

Aelodau'r Bwrdd:

Dr. J.A. Davies, Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Mr. D.E. Alun Jones, Mr. J.O. Jones MBE, Yr Athro Alun Llywelyn-Williams, Syr Thomas Parry, Mrs. Helen Ramage, Mr. H. Heulyn Roberts, Mrs. Elan Closs Stephens, Mr. R.W. Towers.

Cyfarwyddwr: Wilbert Lloyd Roberts

Ysgrifennydd: Gwilym Thomas

Cyfrifydd: John Gwynedd Jones

Rheolwr Technegol: Gwynfryn Davies

Prif Gynllunydd: Martin Morley

Golygydd Sgriptiau: John Ogwen

Swyddog Cyhoeddusrwydd: Geraint Wyn Parry

Cynorthwywyr Gweinyddol: William Hughes

Argraffydd: Robert H. Williams

Swyddfa: Menai Howells, Carys E. Pritchard.

CARADOG PRICHARD

"...Y cynyrfiadau ysgubol yn f'ardal i oedd Streic Fawr Chwarel y Penrhyn a'r Diwygiad, - dau gynnwrf y mae ôl eu galanas ysbrydol yn aros ar yr ardal hyd heddiw. Ac rwy'n siwr hefyd fod y galanas hwnnw wedi chwarae'i ran yn ystumio fy natur a 'mhersonoliaeth innau, a genhedlwyd yn ei ganol.

Yn sgil ac adlais y ddwy ddaeargryn yma y ganwyd fi ym Mhen y Bryn, y tŷ nesaf i dŷ Anti Jên..."

Afal Drwg Adda

Fe'i ganed ar y trydydd o Dachwedd 1904 ond ymhen llai na chwe mis digwyddodd rhywbeth oedd i ddylanwadu'n fwy arno na'r daeargrynfeydd yma. Lladdwyd ei dad mewn damwain erchyll gan adael gweddw ifanc i ofalu am dri mab, yr hynaf yn bedair oed. Buan y bu raid i'r teulu symud o Ben y Bryn i gartref arall ac yna i dŷ bychan siambr un lloft. Gorfodwyd Caradog i adael Ysgol Sir Bethesda yn gynnar er mwyn cynnal ei fam ac aeth i weithio yn swyddfa'r *Herald* yng Nghaernarfon. Wedi ysbeidiau ar *Y Faner* a'r *Western Mail* symudodd ym 1932 i Lundain i weithio ar y *News Chronicle*. Ym 1947 fe'i penodwyd i staff y *Daily Telegraph* a phan ymddeolodd ym 1972 'roedd yn brif is-olygydd seneddol y papur hwnnw.

Derbyniodd lawer o'i symbyliad a'i ysbrydoliaeth farddonol yng nghystadleuthau'r Eisteddfod Genedlaethol ac enillodd y Goron deirgwaith yn olynol: Caergybi (1927), Treorci (1928) a Lerpwl (1929). Dyfarnwyd ei bryddest ef orau yn Ninbych ym 1939 ond barnwyd "ei fod wedi gwyro'n ddybryd oddi wrth y testun gosodedig", ac yn Llanelli ym 1962 enillodd y Gadair. Ar gymhelliad taer ei briod, Mati, ymysg eraill, cyhoeddodd gasgliad cyflawn o'i farddoniaeth ym 1979.

Cyhoeddodd ei nofel gyntaf, *Un Nos Ola Leuad* ym 1960, nofel sy'n seiliedig ar atgofion plentyndod. Mae iddi elfen hunangofianol gref ac er nad oes gysylltiad uniongyrchol ag unrhyw berson ynddi, mae'n bortread o fore oes. Yn ei hunangofiant *Afal Drwg Adda* a gyhoeddwyd ym 1973 - a go brin mai "Hunangofiant Methiant" ydyw - dywed am y nofel mai "darlun aneglur, wedi ei ystumio gan amser a dychymyg, fel darlun a welir mewn crychni dŵr, oedd y cronicl hwnnw. Darlun afreal, wedi ei weld yn y cyfnos ac yng ngolau'r lloer."

Bu farw Caradog Prichard yn Llundain ar y pumed ar hugain o Chwefror 1980 ac fe'i claddwyd ym Mynwent Coetmor, Bethesda.

ATGOFION AM CARADOG PRICHARD

JOHN OGWEN

Eistedd i lawr mewn congol gymharol ddistaw ar faes Steddfod y Barri 1968. Caradog yn taenu ei rencot ar y llawr wrth f'ochor a gwneud ei hun yn gyfforddus...a finna'n dechra darllan o 'Un Nos Ola Leuad' - hanes y ffeit a Charadog yn rowlio chwerthin ac yn porthi - hanes ffarwelio â Huw a'r dargra'n powlio lawr ei foch. Mi gofia i'r darlleniad yna tra byddai byw, a'r dyddiau difyr rhai blynyddoedd wedi hynny yn mynd o gwmpas Bethesda yn ei gwmni tra'n gwneud rhaglen i H.T.V.

Mi fuaswn i'n licio meddwl y byddai'r cyflwyniad yma wrth ei fodd o hefyd, yn deyrnged deilwng i athrylith.

Llun: Gwasg Gee, Dinbych

LYN EBENEZER

Rhan o erthygl a gyhoeddwyd gyntaf yn **Y Cymro**, 4 Mawrth 1980.

Bydd marw Caradog yn gymaint colled i ni, ohebwyr Eisteddfodol, ag y bu'r golled i'r Eisteddfod ei hun pan fu farw Cynan...

Caradog oedd ein hynafgwr doeth, ac er na chlywid odid air o'i enau am oriau - ar wahan i ambell besychiad trwyfwg ei sigaret, - yr oedd ei bresenoldeb yn treiddio drwy'r ystafell.

A hyd yn oed pan dorrai stori Eisteddfodol wir fawr, ni welid Caradog byth yn rhuthro. Na, eisteddai yn ôl yn ei gadair yn hamddenol, ei lygaid yn syllu i rywle y tu hwnt i'r to, a'r mwg o'i sigaret holl-bresennol yn codi ac yn troelli uwch ei ben.

Ond ymhell cyn i ni'r cywion gohebyddol gwblhau'r storiau byddai Caradog wedi mynd allan am dro, tra 'roedd Mati wrthi yn darllen stori ei gŵr dros y teliffon i'r derbyniwr copi yn swyddfa'r "Telegraph"...

Y tro cyntaf i mi gyfarfod â Charadog oedd ar Faes Caernarfon ym 1959. 'Roedd hi tua hanner nos, a'r cantorion yn ei morio hi o gwmpas Lloyd George. Dyma benderfynu mynd am dro, ac yno, ger yr ardd fach flodau sy'n sefyll ar ganol y Maes, dyma ddod ar draws Caradog.

Edrychai yn hollol fel y dychmygwn y dylai bardd edrych. Syllai'n fyfyrgar ar y blodau yn yr ardd fechan, sigaret yn mygu rhwng dau fys, sbectol a fframddu, drom islaw talcen llydan, a'i wallt arian trwchus yn cyffwrdd a'i goler.

Ac yn Eisteddfod Caernarfon, ugain mlynedd yn ddiweddarach, y'i gwelais am y tro olaf. A hoffwn feddwl iddo adael yr hen ddaear hon mor hamddenol ag y gadawodd yr Eisteddfod ar y diwrnod olaf hwnnw i mi ei weld - sigaret rhwng ei fysedd, pac-a-mac dros ei siwt ddu a bag siopa plastig yn ei law.

(Cyhoeddir trwy garedigrwydd **Y Cymro**.)

ERNEST ROBERTS

Rhan o erthygl a gyhoeddwyd gyntaf yn **Y Faner**, 11 Ebrill 1980.

'Roeddwn i'n falch iawn fod Caradog wedi cael gorffwyso am noson neu ddwy yn Eglwys Glanogwen, y lle cysegredicaf yn ei fywyd. Canon R.T. Jones oedd ei eilun a chael bod yn berson fel Canon Jones, rydw i'n meddwl, oedd uchelgais bennaf Caradog. Mae'n sôn am hynny yn ei hunangofiant 'Afal Drwg Adda' - Hunangofiant Methiant' a hefyd am ei ymgais aflwyddianus i gyrraedd yr uchelgais honno.

A ystyrai hynny yn un o'i fethiannau? Er ei siom cafodd achos i lawenhau ar ddydd priodas ei ferch Mari. "Roedd hi wedi sylweddoli ei breuddwyd bach ei hun ond wedi sylweddoli un o'm breuddwydion innau hefyd. Cofiais am y breuddwyd hwnnw ar y Cei yng Nghaernarfon ers talwm am y Gwir Barchedig Caradog Prichard. Os na chafodd fod yn ferch i hwnnw 'roedd am fod yn ferch yng nghyfraith i'r Gwir Barchedig Esgob Rhydychen."

'Roedd Caradog erbyn hynny, ym marn beirniaid y Gadair yn Llanelli yn 'BARCHEDIG' ers llawer dydd, a'r si ar led ar Faes yr Eisteddfod mai'r (diweddar) Barchedig G.J. Roberts, Ficer Conwy, oedd piau'r Gadair. Caradog a gadeirwyd yng ngwisg Canon Jones, Glanogwen! Ac i Eglwys Glanogwen y gwibiodd ei feddwl o Llanelli y bore Sul ar ôl ei gadeirio.

Meddai yn ei ddarlith i Gymdeithas y Cymmrodorion yn Eisteddfod Bangor (1971) - "Rhaid i mi gael cofnodi'r fraint a gefais o fynd i'r Cymun Wyth yn Eglwys y Plwyf fore Sul cyn gadael Llanelli. A chael gofyn maddeuant y Bod Mawr am dwyllo beirniaid y Gadair trwy ganu awdl ar brofiad un o'i offeiriaid O - y 'brad brydferth' yna eto. A'i faddeuant O hefyd am basio Stesion Llanelli. A'r fraint bellach a gefais o benlinio wrth ochr y cawr addfwyn a bonheddig i dderbyn y Sacrament. Mi gefais adrodd i mi fy hun y weddi a ddysgais pan gefais fy Medydd Esgob, yn Eglwys Glanogwen, dan law grynedig yr hen ŵr Watkin Bangor, gweddi fer a chryno yn ieithwedd loyw yr Eglwys. 'Bydded i'th sanctaidd ofn orffwys arnaf, O fendigedig Arglwydd, i'm diogelu tra'n y byd, a bydded i'th gariad fod yn wrthrych fy mywyd ac yn gysur imi yn awr fy marwolaeth. Er mwyn dy drugaredd Amen'."

Hebryngwyd gweddillion Caradog i Fynwent Coetmor am nad oedd lle ym Mynwent Glanogwen. Yma, mae'n siwr gen i, y carasai orwedd yng nghwmni ei dad a'i fam, a Canon Jones a Harri Bach Clocsiwr ac eraill o'i gydfforddolion ar **Un Nos Ola Leuad** gynt.

(Cyhoeddir trwy garedigrwydd **Y Faner**)

THOMAS PARRY

Y mae hanner can mlynedd a mwy er pan ddaeth Caradog Prichard a minnau ar draws ein gilydd gyntaf, ac yng Nghaerdydd y bu hynny. Yr oeddem yn lletya mewn dwy stryd nesaf at ei gilydd, ef ar staff y **Western Mail**, a minnau'n ddarlithydd yn y Coleg.

Yr oedd ef eisioes wedi cael profiadau chwerwon, a hefyd wedi cael y profiad melys o ennill y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi yn 1927. Yr oedd pryddest y goron wedi ei hargraffu'n ddestlus iawn cyn ei gyrru i'r gystadleuaeth. Pan oeddwn i'n ymadael â Chaerdydd ar ôl tair blynedd, mi gefais gan y bardd, fel arwydd o'n cyfeillgarwch, y copi o'r bryddest yn ei law ef ei hun fel y gyrrwyd hi i'w hargraffu yn Ffestiniog, ac y mae'n bur ddiddorol, oherwydd y mae'n dangos y newidiadau a wnaeth yr awdur cyn cael y gerdd i'w ffurf derfynol. Gwelwyd arwydd arall o'n cyfeillgarwch pan briododd Caradog y ferch a welodd am y tro cyntaf yn canu yng nghôr ei hysgol mewn cyngerdd: fi oedd y gwas priodas.

'Rwyn siwr na wêl neb fai arnaf am ymfalchio yn fy nghysylltiad â'r bardd a'r llenor gwych hwn.

UN NOS OLA LEUAD

Cyflwynir yr addasiad llwyfan gan

JOHN OGWEN
MAUREEN RHYS
WYN BOWEN HARRIES
GREY EVANS
GWEN ELLIS
GWYN VAUGHAN-JONES

Cyfarwyddwr ..... JOHN OGWEN/GREY EVANS
Cynllunydd ..... CHRISTOPHER GREEN
Cynllun Goleuo ..... HUW ROBERTS

Llwyfanwyr Theatr Cymru ar daith:

Rheolwr Llwyfan
EMYR MORRIS—JONES

Dirprwy
TOM GWYN

Cynorthwywyr
RORY HALE

Trydanwr
HUW ROBERTS

Cynorthwywyr
EURWYN WILLIAMS

Gwisgoedd
GWYNETH ROBERTS

Blaen Tŷ
ANN JONES

Adeiladwyd y set yng ngweithdy'r Cwmni ym Mangor:

Prif Saer
GLYN RICHARDS

Seiri Cynorthwyol
KEITH RICHARDS
NEIL DAVIES

Gwaith gwydr-ffibr
CHRISTOPHER GREEN
MARTIN MORLEY
JULIA JONES

Dymuna'r Cwmni gydnabod cydweithrediad y canlynol:-

Chwarel y Penrhyn Cyf.
Brian Osbourne Ysw., Denis Feranti Laminations Cyf.
Glud ar gyfer y golygfeydd a'r gwisgoedd gan Copydex
Glud ar gyfer y golygfeydd gan Evode.

Cyflwyniad nesaf Theatr Cymru

DINAS

Comedi gan
EMYR HUMPHREYS a W.S. JONES

Hen lanc o Gymro Cymraeg yw John Barig, perchennog ffermdy Dinas. Dibynna'n llwyr ar lafur Ossie, ei was. Mae gan bawb o'r cymeriadau amrywiol eraill, yn wledig a threfol, ddiddordeb mawr yn yr hen le.

"Ein nod fel arfer yw difyrru, ond os ceir ambell ergyd yma ac acw gorau oll" - yr awduron.

AR DAITH YN EBRILL A MAI

Cymdeithas Theatr Cymru

Gwahoddir pawb sy'n gweld gwerth mewn perfformiadau Cymraeg i ymuno a dangos cefnogaeth i'r theatr Gymraeg.

Manteision Aelodaeth

Gwybodaeth ymlaen llaw am gynnyrchion y Cwmni. Tocyn Mantais rydd ostyngiad ar bris mynediad. Cylchlythyr rheolaidd gyda'r holl newyddion. Cyhoeddiadau arbennig am ddim e.e. *Yr Arwr yn y Theatr.*

Mae ymaelodi'n rhad iawn

Gŵr a Gwraig	£2.00
Unigolyn	£1.50
Pensiynwr/Myfyriwr	75c
Gŵr a Gwraig ar bensiwn	£1.00
Aelodaeth Grŵp	£2.00

Anfonwch naill ai am fwy o fanylion neu eich tâl aelodaeth at
YR YSGRIFENNYDD AELODAETH, CYMDEITHAS THEATR CYMRU,
BRON CASTELL, STRYD FAWR, BANGOR, GWYNEDD LL57 1YS.

Gweithreda Theatr Cymru gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru.

RECORD
"UN NOS OLA LEUAD"

gyda
JOHN OGWEN a MAUREEN RHYS

Mae record a chaset o'r cyflwyniad cofiadwy hwn ar werth ar ddiwedd y perfformiad, ac yn eich siop leol.

SAIN, PENYGROES, CAERNARFON, GWYNEDD
Ffôn: Penygroes 732

I'w chyhoeddi Ddydd Gŵyl Dewi

ASTUDIAETHAU THEATR CYMRU: Rhif 3

YR ARWR YN Y THEATR

Darlith gynhwysfawr a threiddgar y Dr. John Gwilym Jones a draddodwyd fel rhan o weithgareddau GŴYL 80.

Copiau ar gael gan Gymdeithas Theatr Cymru neu o'ch siop lyfrau leol.

Copi am ddim i aelodau Cymdeithas Theatr Cymru.